RHIFYN
ISSUE
57
06.09.23

Llais Llantrisant



DYDDIADAU ALLWEDDOL
KEY DATES

11.09.23 - Cyfarfod Llangrannog (Bl. 5 a 6)
Llangrannog Meeting (Yr.5 & 6)
25.09.23 - Cyfarfod Tric a Chlic (Derbyn a Bl.1)
Tric a Chlic Meeting (Reception and Yr.1)
16.10.23 - Brechlyn y Ffliw (llythyr i ddilyn)
Flu Vaccination (letter to follow)
26.10.23 - Diwrnod ola'r hanner tymor cyntaf
Last day of first half term
27.10.23 - Diwrnod HMS
INSET Day

DYDDIADAU'R TYMOR
TERM DATES

Bydd y plant yn gorffen yn yr ysgol ar gyfer gwyliau Hanner Tymor ar ddydd Iau, 26.10.23 ac yn dychwelyd ar 06.11.23. Diwrnod olaf Tymor yr Hydref eleni fydd 22.12.23 am 3:30 yp.
The children will finish school for the Half Term holiday on Thursday, 26.10.23 and will return on 06.11.23. The last day of the Autumn Term this year is on 22.12.23 at 3:30 pm.

HMS 2023-2024
INSET 2023-2024

Eleni, bydd pob ysgol yng Nghymru yn cau am 6 diwrnod HMS.
This year, every school in Wales will close for 6 INSET days.

04.09.23	27.10.23
08.01.24	08.04.24
22.07.24	+1

EISTEDDFOD 2024
EISTEDDFOD 2024

Annogir y plant i wisgo dillad coch i'r ysgol ar 15.09.24 a dod â chyfraniad o £1 tuag at gronfa Eisteddfod Genedlaethol RCT fis Awst 2024.
The children are encouraged to wear red clothing to school and bring a £1 contribution towards the RCT National Eisteddfod August 2024 fundraising campaign.

EISTEDDFOD
Rhondda Cynon Taf

LLUNIAU YSGOL
SCHOOL PHOTOGRAPHS

Bydd John ac Anna yn ymweld â ni ar 27.09.23 i dynnu lluniau unigol.
John and Anna will visit us on 27.09.23 to take individual school photographs.

CROESO NÔL
WELCOME BACK



Gobeithio fod pawb wedi cael cyfle i ymlacio ac wedi mwynhau gwyliau braf. Mae tymor prysur iawn arall o'n blaenau.
We hope everyone has had the opportunity to relax and has had a good summer break. We have another busy term ahead of us.

CYFEIRIADAU EBOST
EMAIL ADDRESSES

Dosbarth 1	1d5@hwbcymru.net
Dosbarth 2	2d5@hwbcymru.net
Dosbarth 3	3d5@hwbcymru.net
Dosbarth 4	4d5@hwbcymru.net
Dosbarth 5	5d5@hwbcymru.net
Dosbarth 6	6d5@hwbcymru.net
Dosbarth 7	7d5@hwbcymru.net
Dosbarth 8	8d5@hwbcymru.net

Os oes angen cysylltu ag athrawon y dosbarthiadau i drafod materion lefel dosbarth, gweler y cyfeiriadau ebost. Gofynnir yn garedig i chi beidio â defnyddio'r cyfeiriadau ebost hyn ar gyfer materion o frys gan nad yw'r athrawon yn edrych ar y cyfrifon ebost hyn yn ystod y dydd gan eu bod yn brysur yn addysgu'r plant. Mewn argyfwng, cysylltwch â Swyddfa'r Ysgol ar 01443 237837. Galwad ffôn yw'r ffordd orau i sicrhau fod aelod o staff wedi derbyn unrhyw neges bwysig.
Should you need to contact the class teachers for any class based matters, please see the class email addresses above. You are kindly asked not to use these email addresses in any emergency situation as the teachers do not monitor these accounts during the day since they are busy teaching the children. In any emergency, please contact the School Office on 01443 237837. A phone call is the best form of contact in an emergency to ensure a member of staff has received any important message.



ALERGEDDAU A BWYD
ALLERGIES AND FOOD





Mae nifer o blant yn yr ysgol ar hyn o bryd sydd ag alergeddau difrifol at rai fwydydd. Mae hyn yn cynnwys cnau: cnau daear, menyn pysgnau, pecanau, cnau Ffrengig, olew cnau a chyflasynnau cnau. Gallai cyffwrdd neu fwyta rhai o'r eitemau hyn achosi adwaith difrifol. Er mwyn diogelwch y disgyblion hyn, gofynnir yn garedig unwaith eto i rieni osgoi anfon bwydydd sy'n cynnwys cnau i'r ysgol ar gyfer ciniawau pecyn a byrbrydau amser chwarae, os gwelwch yn dda. Mae hyn yn cynnwys bwydydd fel 'Nutella'.



Hefyd, cofiwch dorri grawnwin, llus, tomatos bach ac ati yn eu hanner ar eu hyd, os gwelwch yn dda, gan fod plant yn tagu'n hawdd ar y ffrwythau hyn. Diolch yn fawr ymlaen llaw am eich cydweithrediad.
Currently, there are a number of children in school who have a severe, life-threatening allergy to various food products. This includes nuts: peanuts, peanut butter, pecans, walnuts, nut oils and nut flavourings etc. Touching or eating these items may provoke a severe allergic reaction. For the safety of these pupils, we once again kindly ask that parents do not send any food containing these items to school for a snack or in packed lunches. This also includes foodstuffs such as 'Nutella'.
Also, please remember to cut grapes, blueberries, small tomatoes etc. in half, lengthways as children can quite easily choke on these fruits. Thank you in advance for your cooperation.

HWYL FAWR A DIOLCH

FAREWELL AND THANK YOU

Rhag ofn i rai golli llythyr diwedd y flwyddyn, hoffem fanteisio ar y cyfle yma i ddiolch i Miss Helen Thomas am fod yn aelod ffyddlon o staff yr ysgol am 14 o flynyddoedd. Dymunwn bob lwc iddi wrth iddi ddechrau ar ei hantur newydd!

Should anyone have missed the end of year letter, we should like to take this opportunity to once again thank Miss Helen Thomas for being a faithful member of the school staff for over 14 years. We wish her all the very best as she embarks on her next adventure!



CINIAWAU YSGOL

SCHOOL MEALS

Erbyn hyn, mae holl blant cymwys wedi cael cynnig pryd ysgol am ddim yn ddyddiol. O fis Medi 2023, bydd y cynnig yn cael ei ymestyn i ddisgyblion Blynyddoedd 3 a 4. Wedyn, o fis Ebrill 2024, bydd y cynnig yn cael ei ymestyn i ddisgyblion Blynyddoedd 5 a 6.

Cost ciniawau ysgol i bawb arall yw £2.70 y dydd a gofynnir i rieni dalu ar-lein ymlaen llaw ar gyfer ciniawau ysgol. Nid yw'r ysgol yn derbyn arian parod / sieciau. Ewch i dudalen hon gwefan yr ysgol am ragor o fanylion.

Bydd disgyblion newydd y dosbarth Meithrin yn derbyn manylion talu unwaith y bydd RCT yn eu rhoi nhw i ni gan obeithio na fydd oedi!

By now, all eligible pupils have been offered daily free school meals. From September 2023, this offer is extended to Year 3 and 4 pupils. From April 2024, this offer will then extend to Year 5 and 6 pupils.

*The cost of school meals for everyone else is **£2.70 a day** with all parents kindly asked to pay online in advance for school lunches. School does not accept cash or cheques. Visit this page on the school website for further details.*

New Nursery children will receive their payment details once RCT have provided us with them - hopefully this will not take too long!



PRESENOLDEB A SALWCH

ATTENDANCE AND ILLNESS

Gofynnir yn garedig i rieni sicrhau bod eu plant yn cyrraedd yr ysgol yn brydlon bob bore erbyn 9:00 y.b. Os bydd plentyn yn dost neu ag apwyntiad meddygol, gofynnir i chi gysylltu â'r ysgol trwy alwad ffôn cyn 9:00 yb ar ddiwrnod cyntaf yr absenoldeb a phob diwrnod arall o absenoldeb yn dilyn hyn os gwelwch yn dda. Os bydd apwyntiad meddygol gan blentyn, mae angen i Swyddfa'r Ysgol weld cerdyn / llythyr er mwyn mewnbynu hyn i system cofrestru'r ysgol, SIMS. Gofynnir i bob rhiant anfon taflen TREFNIADAU DIWEDD Y DYDD at athrawon eu plant bob dydd Llun os gwelwch yn dda. Os bydd trefniadau yn aros yr un peth am y tymor, cwblhewch un daflen a nodwch hyn arni os gwelwch yn dda.

*Parents are kindly asked to make every effort in ensuring their children attend school regularly and promptly by 9:00 a.m. each morning. If a pupil is ill, or has a medical appointment, you are asked to contact the school by telephone call before 9:00 am to inform us on the first day of absence, and each day following this until return to school, please. If a child has a medical appointment, please provide the School Office with the appointment card / letter so this can be entered into the school's SIMS registration system. Also, all parents are kindly asked to complete and return to school an **END OF DAY ARRANGEMENTS** sheet on Monday mornings please. If arrangements are likely to remain the same for the term, please state this on the form and send only one form at the beginning of the term for your convenience.*

FFURFLEN ABSENOLDEBAU / *ABSENCE FORM*

CYFARFODYDD 'CWRDD Â'R ATHRAWON'

'MEET THE TEACHERS' MEETINGS

Unwaith eto, bydd cyfarfodydd byr ar ddechrau'r tymor i'n holl rieni gwrdd â'r athrawon dosbarth. Cynhelir y cyfarfodydd hyn yn Neuadd yr Ysgol. Gweler yr amserlen isod, os gwelwch yn dda.

Once again, we shall be holding short meetings for all our parents to meet the class teachers. These meetings will be held in the School Hall. Please see the schedule below.

Dosbarth 1, 2 & 3	Mrs Hurst, Mrs Critchell, Mrs Burrows & Mrs Morrish	25.09.23	3:45 yp/*pm* - 4:15 yp/*pm*
Dosbarth 4, 5 & 6	Mr Jones, Mrs Jenkins & Mrs Flower	26.09.23	3:45 yp/*pm* - 4:15 yp/*pm*
Dosbarth 7 & 8	Miss Williams & Miss Jones	27.09.23	3:45 yp/*pm* - 4:15 yp/*pm*

NOSWEITHIAU AGORED

OPEN EVENINGS



Yn dilyn y cyfarfodydd torfol 'Cwrdd â'r Athrawon', cynhelir Cyfarfodydd Cynnydd Tymor yr Hydref i chi drafod ag athrawon eich plant un-i-un ar Hydref 23ain a 24ain. Cadwch y dyddiadau hyn yn rhydd os gwelwch yn dda. Apwyntiadau 10 munud fydd i drafod sut mae'ch plant yn ymgartrefu yn eu dosbarthiadau newydd. Cewch ragor o wybodaeth yn nes at y dyddiadau hyn ynghylch y system bwcio

*Following the whole group 'Meet the Teachers' meetings, Autumn Term Progress Meetings for you to speak with your children's class teachers on a one-to-one basis will be held on **October 23rd and 24th**. Please keep these dates free. These meetings will be 10 minutes long and offer you the opportunity to discuss how your children are settling in to their new classes. Further information will follow closer to these dates regarding the online appointment booking system.*

RHIENI DERBYN A BLWYDDYN 1

RECEPTION AND YEAR 1 PARENTS

Bydd Mrs Morrish a Mrs Burrows yn cynnal cyfarfod yn Neuadd yr Ysgol ar gyfer rhieni'r plant Derbyn a Blwyddyn 1 ar 25.09.23 am 4:15 yp i drafod cynllun ffoneg yr ysgol, Tric a Chlic. Bydd y cyfarfod yma ar ôl y cyfarfod 'Cwrdd â'r Athrawon'

*Mrs Morrish and Mrs Burrows will hold a meeting in the School Hall for Reception and Year 1 parents on **25.09.23** at 4:15 pm to discuss the school's phonics programme, Tric a Chlic. This will take place following the 'Meet the Teacher' meeting.*

Tric a Chlic

cliciwch /*click*

ADDYSG GORFFOROL

PHYSICAL EDUCATION

Diwrnod *Day*	Dosbarth *Class*
Dydd Llun *Monday*	3 & 8
Dydd Mawrth *Tuesday*	2
Dydd Mercher *Wednesday*	5 & 7
Dydd Iau *Thursday*	1 & 6
Dydd Gwener *Friday*	4

LLANGRANNOG 20.09.23

LLANGRANNOG 20.09.23

Trefnir cyfarfod am 3:45 yp yn Neuadd yr ysgol ar 11.09.23 ar gyfer rhieni plant Blwyddyn 5 a 6 i drafod eu hymweliad ar Fedi 20fed i 22ain.

A meeting has been arranged for 3:45 pm in the school hall on September 11th for Year 5 and 6 parents to discuss the visit to Llangrannog on September 20th to 22nd.

AP YR YSGOL

THE SCHOOL APP

Cofiwch, os nad ydych wedi lawrlwytho Ap yr Ysgol mae perygl i chi golli negeseuon pwysig. Cliciwch ar yr eiconau isod i lawrlwytho'r Ap. Cofiwch fwrw golwg yn rheolaidd ar galendr ac adran RHIENI gwefan yr ysgol yn ogystal â'ch cyfrif ebost.

Remember, if you haven't downloaded the School App you are most likely missing important messages. Click on the icons below to download the App. Remember to regularly look at the calendar and PARENTS section of the school website and your email accounts.



DIOGELWCH Y SAFLE

SITE SAFETY

Hoffem atgoffa pawb i beidio â gyrru i mewn i faes parcio'r ysgol ar unrhyw adeg er diogelwch y plant, rhieni a staff sy'n cyrraedd a gadael y safle, os gwelwch yn dda. Yn yr un modd, gofynnir yn garedig i chi beidio â gyrru trwy a pharcio ym mae bysiau'r ysgol os gwelwch yn dda.

We should like to remind everyone not to drive into the school car park at any time for the safety of children, parents and staff who may be arriving and leaving the site, please. By the same token, you are kindly asked not to drive through or park in the school bus bay please.



Cofiwch ymweld / *Remember to visit:* Calendr yr Ysgol / *School Calendar*

GWEITHGAREDDAU ALLGYRSIOL *EXTRA-CURRICULAR ACTIVITIES*



Bydd ein gweithgareddau allgyrsiol yn ail-ddechrau yn ystod yr wythnos yn dechrau 11.09.23. Bydd y clybiau chwaraeon ar gyfer plant Blwyddyn 5 a 6, gydag ymarfer Côr ar gyfer plant Blwyddyn 3 i 6, Clwb Creadigol i blant Blwyddyn 1 a 2, Clwb Posau i blant Blwyddyn 3 a 4 ac Adran Yr Urdd ar gyfer plant Blwyddyn 3 i 6 yn eu tro. Cofiwch fod yr holl fanylion hyn ar galendr yr ysgol. Cynhelir pob gweithgaredd rhwng 3:30 yp a 4:30 yp. Diolch i chi am gasglu'ch plant yn brydlon o fae bysiau'r ysgol. Sylwch, os gwelwch yn dda, nad oes clwb ambell i wythnos oherwydd digwyddiadau eraill.

*Extra-curricular activities will recommence during the week beginning **11.09.23**. The Sports Clubs are for Year 5 and 6 pupils, with Choir practice for pupils in Years 3 to 6, Creative Club for Year 1 and 2 pupils, Puzzle Club for Year 3 and 4 pupils and Urdd Club for pupils in Year 3 to 6. Please remember that these details are also to be found on the school website calendar. All activities are held between 3:30 pm and 4:30 pm. We thank you for collecting your children promptly from the school bus bay. Please note there is no club some weeks due to other events.*

Clwb Chwaraeon *Sports Club*

Blwyddyn 5 a 6 *Year 5 and 6*	13.09	20.09	04.10	11.10	18.10	08.11
	15.11	22.11	29.11	06.12	13.12	
Mrs Jenkins & Mr Jones						

Clwb Creadigol *Creative Club*

Blwyddyn 1 *Year 1*	13.09	04.10	18.10	15.11	29.11	13.12
Blwyddyn 2 *Year 2*	20.09	11.10	08.11	22.11	06.12	13.12
Mrs Burrows						

Clwb Chwaraeon Yr Urdd *Urdd Games Club*

Blwyddyn 1 *Year 1*	**Bydd Staff yr Urdd yn cyfathrebu â'r rhieni perthnasol wedi i chi ymgeisio â lle yn y clwb yma gyda nhw.** *Urdd Staff will communicate with the relevant parents following any applications made to attend this club.*
Blwyddyn 2 *Year 2*	
Staff Yr Urdd *Urdd Staff*	

Adran yr Urdd *Urdd Club*

Blwyddyn 3 a 4 *Year 3 & 4*	14.09	19.10	23.11	
Blwyddyn 5 a 6 *Year 5 & 6*	05.10	09.11	07.12	
Miss Jones & Mr O'Neil				

Côr *Choir*

Blwyddyn 3 i 6 *Year 3 to 6*	12.09	19.09	03.10	10.10	17.10	07.11
	14.11	21.11	28.11	05.12	12.12	
Mrs Morrish & Miss Williams						

Clwb Posau *Puzzle Club*

Blwyddyn 3 a 4 *Year 3 & 4*	13.09	20.09	04.10	11.10	18.10	08.11
	15.11	22.11	29.11	06.12	13.12	
Mrs Flower						

16.10.23	**Nyrs yr ysgol (Brechlyn y ffliw - llythyr i ddilyn) /** *School Nurse (Flu immunisation - letter to follow)*
24.10.23	**Diwrnod y Cenhedloedd Unedig (llythyr i ddilyn) /** *United Nations Day (letter to follow)*
07.12.23	**Diwrnod y Siwmperi Nadoligaidd & Cinio /** *Christmas Jumper & Lunch Day*
21.12.23	**Partïon Nadolig (yn ystod y dydd - llythyr i ddilyn) /** *Christmas Parties (during the day - letter to follow)*
22.12.23	**Disgo Nadolig (yn ystod y dydd – llythyr i ddilyn) /** *Christmas Disco (during the day – letter to follow)*

Calendr yr ysgol / *School calendar*

Dilynwch ni ar / *Follow us on:* @YGGGLlantrisant